

Gwybod beth i'w ddarllen

Gallwch arbed llawer o amser os ydych yn gwybod sut i **ganfod deunyddiau priodol** i'w darllen.

Dyma ychydig o awgrymiadau a chynghorion ynghylch sut i wybod beth i'w ddarllen:

- **Mae rhestrau darllen** yn cynnwys testunau craidd sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chynnwys y modiwl. Maen nhw hefyd yn argymhell deunydd darllen ychwanegol, a deunyddiau eraill y cyfeirir atynt yn y modiwl.
- I **weld eich rhestrau darllen** ewch i Brifysgol Bangor **gwe-dudalen y llyfrgell**, cliciwch ar **Rhestrau darllen** a chwilio am eich modiwl yn ôl enw, cod neu ysgol. Edrychwch hefyd yn eich tudalen Blackboard.
- **Defnyddiwch y mynegai** (yng nghefn y llyfr) i ddod o hyd i'r tudalennau sy'n cynnwys gwybodaeth berthnasol.
- Edrychwch i weld pa mor **ddiweddar** yw dogfen, os oes gofyn i chi drafod erthyglau diweddar, yna ni fydd darn o waith o'r 60au cynnar yn briodol.
- Mae Google Scholar yn aml yn dangos **pa mor aml** mae dogfen wedi cael ei dyfynnu. Gallai fod yn werth edrych i weld pwy sydd wedi dyfynnu'r erthygl honno a pham. Os yw oherwydd bod y gwaith yn ddilys ac wedi cael ei ddyfynnu nifer o weithiau, yna mae'n debyg y bydd yn briodol.
- Os ydych yn ansicr pa mor briodol yw dogfen, **gofynnwch i'ch darlithydd**.